DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 67 Ionawr 2008

Yn ddiweddar, croesawyd ein partneriaid o'r Weriniaeth Siec i Medrwn Môn drwy'r **cynllun GWLAD** a ariannir drwy gyllid EQUAL. Ymwelodd y grŵp â nifer helaeth o grwpiau a mudiadau oedd wedi cymryd rhan yng ngwaith GWLAD dros y ddwy flynedd diwethaf.

Wrth gwblhau cynllun GWLAD diwedd 2007 ac er mwyn lledaenu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith a wnaethpwyd drwy Bartneriaeth GWLAD, cynhaliwyd cynhadledd yn ddiweddar yn y Galeri yng Nghaernarfon.

Cyflwynodd y partneriaid eu rôl yng ngwaith partneriaeth GWLAD, sy'n amrywio o waith gyda rhai sy'n cam-ddefnyddio sylweddau, alcohol a chyffuriau i waith gyda lleiafrifoedd ethnig yn gweithio ym maes amgylcheddol. Cyflwynwyd cyfraniad Medrwn Môn i waith GWLAD, sef cynllun gwirfoddoli a 'toolkit' i gynorthwyo busnesau yn y sector breifat i alluogi eu staff i wirfoddoli. Yn ystod y gynhadledd cyflwynodd ein partneriaid o'r Weriniaeth Siec eu cyfraniad hwy i waith y bartneriaeth GWLAD.

Mae gwaith y bartneriaeth wedi bod o fudd i Medrwn Môn gan ei fod wedi ein galluogi i fod yn arloesol a dyfeisgar yn ein gwaith gwirfoddoli. Yn ogystal, mae cyd-weithio gyda'n cyfeillion o'r Weriniaeth Siec wedi ein galluogi i drafod y posibilrwydd o gyd-weithio ar gynlluniau eraill yn y dyfodol.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

NEWYDDION LLEOL

Gwobrau Partneriaethau Cymunedol Ynys Môn 2006 / 2007

Cefnogwyd Cynhadledd Partneriaethau Cymunedol Ynys Môn 2006/ 2007, a drefnwyd gan dîm Strategaeth Pobl Hyn Ynys Môn, gan amryw o aelodau clybiau dros 50 oed yr ynys yn Neuadd y Dref Llangefni.

Bu'r diwrnod, oedd yn cynnwys seremoni gwobrwyo arbennig, yn rhoi cyfle i'r Cyngor Sir werthfawrogi gwaith caled y clybiau yn eu cymunedau. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i aelodau rannu ymarfer da a chyfarfod.

Mae Age Concern Gwynedd a Môn a tua deugain o Glybiau dros 50oed ar yr Ynys, efo cannoedd o bobl hyn yn cyfrannu at fywyd cymunedol. Mae datblygiad cymunedol a chyfranogi mewn gweithgarwch lleol yn allweddol i weithio mewn partneriaeth ac i weithredu Strategaeth Pobl Hyn Ynys Môn.

Cafwyd yn ystod sesiwn y bore cyfres o gyflwyniadau gan aelodau clybiau ac ymarferwyr iechyd a lles. Dilynwyd hyn gan arddangosfa o 'gerdded nordic', y seremoni wobrwyo, a sesiwn dawnsio dilyniant efo David Lloyd Jones a Grŵp Dawnsio Brynteg.

Gwobrwyon 2006 / 2007:

Aelod Mwyaf Gwerthfawr Clwb:
Mrs Doris Thomas,
Clwb Bro Nant y Pandy Llangefni.
Clwb y Flwyddyn: *Clwb y Cob Fali*
Prosiect Mwyaf Arloesol:
Clwb dros 50 oed Biwmares am eu sesiynau galw heibio.

Am fwy o wybodaeth am eich Clwb dros 50 oed lleol, cysylltwch â:
Age Concern Gwynedd a Môn ar (01286) 677711 neu
Mr Brian Jones - Cydlynydd Pobl Hŷn ar (01248) 752763

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth

Lansiwyd cronfa newydd gwerth £40 miliwn a fydd yn defnyddio'r gemau Olympaidd a Phara Olympaidd yn 2012 i hyrwyddo'r celfyddydau a chwaraeon ymhlith pobl ifanc a chymunedau. Bydd Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU yn cefnogi gweithgareddau diwylliannol, addysgol, artistig a chwaraeon ym mhob cwr o'r wlad. Mae Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth wedi cael ei sefydlu i helpu i sicrhau y dethlir y Gemau Olympaidd a Phara Olympaidd yn Llundain yn 2012 ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ac i helpu i greu rhywbeth parhaol i'w adael ar ôl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cefnogi nifer fechan o raglenni cenedlaethol, gan gynnwys Gemau Ysgol y DU, Wythnos Fawr y Celfyddydau a Gŵyl Diwylliant Ieuenctid y Byd. Dosberthir y gweddill yr yn y tair cenedl (Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon) a naw rhanbarth Lloegr.

Amgylchedd Cymru

Nod Amgylchedd Cymru, a gaiff ei weinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yw cefnogi gweithredu gwirfoddol sy'n diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd, gan gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae pump o gynlluniau grantiau ar gael:
Grantiau Prosiectau – i ariannu deunyddiau, offer a chyfarpar prosiectau (£10,000).
Grantiau Rheoli – i swyddi newydd yn ymwneud â'r prosiectau (£1,000 - £11,000).
Grantiau Costau Cychwynnol – at gostau sefydlu grwpiau cymunedol neu grwpiau gwirfoddol newydd, ac ar gyfer datblygu prosiectau'n barod i'w cofrestru (£1,000).
Grantiau Hyfforddiant – i gynorthwyo gwirfoddolwyr neu staff prosiectau efo costau hyfforddiant (gan gynnwys costau teithio'n ymwneud â chyrsiau) (£400).
Grantiau Cyn Cychwyn y Prosiect – at gymorth arbenigol, er enghraifft astudiaethau dichonolrwydd, cynlluniau busnes a gwerthusiadau cymunedol (£500 - £4,000).

Cyfeiriad: Amgylchedd Cymru, Tŷ Baltig,
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Ffôn: 029 2043 1727 / 1769 E-bost:info@environment-wales.org

Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn darparu grantiau i elusennau bach sy'n gweithio gyda phobl hŷn, plant, pobl anabl neu grwpiau difreintiedig. Mae grantiau hyd at £3,000 ar gael i elusennau cofrestredig sydd wedi bod yn weithredol ers o leiaf tair blynedd ac sydd â gwariant blynyddol o dan £60,000.
Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ariannu prosiectau addysg a dysgu, yn enwedig os ydynt yn cynnwys pobl sydd yn ddifreintiedig yn addysgol.
Gwahoddir ceisiadau erbyn 26 Mawrth i gyfarfod yr Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf.

Cyswllt: Margaret Thompson – Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp,
47A Paris Road, Scholes, Holmfirth HD9 1SY Ffôn: 01484 683403

NEWYDDION

Rhaglen Gydweithredol Drawsffiniol Cymru-Iwerddon ERDF

Cafodd Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Cymru-Iwerddon, sy'n werth €52 miliwn ei lansio'n swyddogol gan Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog, yn Llandudno ar 7 Rhagfyr 2007. Bydd mudiadau sy'n gweithio'n Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, **Ynys Môn,** Conwy a Sir Ddinbych yn gymwys i wneud cais am arian i weithio mewn partneriaeth â mudiadau sy'n gweithio yn siroedd Dulyn, Meath, Wicklow, Kildare, Wexford, Waterford, Kilkenny, Carlow a De Tipperary yn Iwerddon.

Bydd oes y rhaglen yn para tan 2013, ac yn ariannu mentrau Cymreig-Gwyddelig ar y cyd mewn meysydd megis datblygu busnesau mwy arloesol, datblygu sgiliau a hyfforddiant, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy a datblygu cymunedol.

Bydd y **Prosiect Rhwydweithio Cymru-Iwerddon 2 (WIN 2)** yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhaglen a'i nod yw annog ffurfio partneriaethau a all arwain at gyflwyno ceisiadau i Raglen Cymru-Iwerddon trwy ddarparu cymorth ariannol tuag at gostau teithio a chynhaliaeth i fudiadau cymwys.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan newydd y rhaglen, neu cysylltwch ag Adran Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn ar 01248 752435.

Gwobr Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2008

Gwahoddir enwebiadau gan Gyngor Gwirfoddol Gweithredol Cymru i adnabod a gwobrwyo cyfraniad arbennig pobl i'w cymuned. Cefnogir gan y Post Brenhinol, mae
pump categori i Wobrwyon Gwirfoddolwyr Cymru - unigolion, pobl ifanc (o dan 25 oed) gwirfoddolwyr 'gwyrdd', ymddiriedolwyr a grwpiau.

Bydd hyd at dri enillydd ym mhob categori, efo 15 enillwyr cenedlaethol yn cael eu gwobrwyo mewn seremoni yng Nghaerdydd Mehefin nesaf, a'r holl enwebiadau yn derbyn tystysgrifau cymeradwyaeth mewn seremoni leol neu drwy'r post.

Manylion y cynllun ynghyd â ffurflenni enwebu ar gael o ddesg cymorth WCVA ar 0800 2888 329,
e-bost help@wcva.org.uk neu o'r wefan
www.wcva.org.uk.

Dyddiad cau i dderbyn enwebiadau: 28 Mawrth 2008.

Wales Council for Voluntary Action
Supporting charities, volunteers and communities
Cyngor Gwirfoddol Cymru
Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

NEWYDDION LLEOL

Arian Comisiwn Russell a Llwybrau Dysgu 14 - 19 yn rhoi cyfleoedd gwirfoddoli i fobl ifanc

A YDYCH YN CHWILIO AM WIRFODDOLWYR?

Oes gan eich mudiad gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc?

Ydych angen cymorth i ddenu gwirfoddolwyr ifanc?

A oes ddiddordeb gan eich mudiad i ymwneud a chynorthwyo mewn hybu gwirfoddoli i bobl ifanc?

Fe all pobl ifanc o gael y cyfle ddymuno cyfrannu eu hamser a'u hegni i wella eu cymuned.

Os yw eich mudiad yn barod yn cefnogi gwirfoddolwyr ifanc, neu y buasai yn hoffi gweithio gyda chenhedlaeth newydd o wirfoddolwyr cysylltwch â Medrwn Môn.

Am fwy o wybodaeth ar y prosiect gwirfoddoli i bobl ifanc cysylltwch â:

Henri Hughes neu Mark Gahan.
Swyddogion Datblygu Gwirfoddolwyr Ifanc
Medrwn Môn, Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa, Llangefni,
Ynys Môn LL77 7EN

01248 724944

henri@medrwnmon.org
mark@medrwnmon.org

Henri Hughes a Mark Gahan, swyddogion Medrwn Môn a fydd yn goruchwylio'r Prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc.

NEWYDDION

Estyn Llaw - Ar 11eg o Ionawr lansiwyd strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y Sector Gwirfoddol er mwyn datblygu dwyieithrwydd o fewyn y Trydydd Sector, yn unol â dymuniad a pholisi Llywodraeth y Cynulliad.

Mae rhaglen Estyn Llaw a ariennir yn bennaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i weithio'n uniongyrchol gyda mudiadau gwirfoddol a gyda phartneriaid o fewn y sector fel y Cynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth.

Mae copïau o'u bwletin newyddion diweddaraf ar gael o Medrwn Môn neu gallwch dderbyn copi electroneg os dymunwch. Cysylltwch â Medrwn Môn.

Y Sector a'r Cynulliad yn mynd i'r 'trydydd dimensiwn'

Yn y cyfarfod cyntaf i Dr Brian Gibbons ei gadeirio yn ei swyddogaeth newydd fel Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, clywodd cyfarfod mis Tachwedd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol (VSPC) sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cefnogi'r sector a gweithio gydag ef dros y tair blynedd nesaf.

Drwy ei Gynllun Gweithredu Strategol, *Y Trydydd Dimensiwn*, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ailddatgan ei hymrwymiad i egwyddorion a gwerthoedd Cynllun y Sector Gwirfoddol ac wedi cyflwyno darlun o'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno ei gyflawni drwy ei chefnogaeth i'r 'trydydd sector'.

Fel ymateb, rhoddodd cynrychiolwyr y sector gwirfoddol groeso cyffredinol i'r ymrwymiadau yn y cynllun, ond pwysleisiwyd bod angen monitro ei weithredu'n agos gan ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau gwirioneddol. Yn awr, bydd holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i benderfynu sut y byddant yn gweithredu i gefnogi cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun. Un o brif ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu yw ymgyrch drwy'r cyfryngau i wella ymwybyddiaeth o wirfoddoli a chodi ei statws. Bydd hyn yn gysylltiedig â phrosiect ymchwil, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r cymhellion a'r rhwystrau sy'n wynebu gwirfoddolwyr.

Clywodd y VSPC hefyd gyflwyniad ar y cyd gan gynrychiolwyr Cyngor ac Eiriolaeth, a Phobl Hŷn, a oedd yn tynnu sylw at rôl y sector gwirfoddol o ran darparu gwybodaeth a chyngor. Anogwyd Llywodraeth y Cynulliad i gydnabod eu rôl strategol allweddol o ran sicrhau darpariaeth ddigonol ac amrywiol ar lefel leol. Cytunwyd y byddai'r VPSC yn cychwyn ymchwiliad i lefel bresennol y gefnogaeth ar gyfer cyngor a gwybodaeth annibynnol, a rôl y sector gwirfoddol. Byddai'r gwaith hwn yn goleuo polisi Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys Strategaeth Cynghori Cymru a chomisiynu rhanbarthol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y VSPC ar 13 Mawrth yn Sir Gaerfyrddin. Mae croeso i'r cyhoedd fod yn bresennol, a phe hoffech ddod i'r cyfarfod hwn, cysylltwch â Nigel Woodward, Uned Cynhwysiant a'r Sector Gwirfoddol, ar 01685 729272.

NEWYDDION

Newyddion Ymddiriedolwyr CGGC

Mae'r rhifyn ddiweddaraf o *Newyddion Ymddiriedolwyr*, a gynhyrchir ar gyfer e-aelodau WCVA sydd wedi ymgofrestru i dderbyn gwybodaeth am ymddiriedoli ar gael nawr. Danfonir *newyddion Ymddiriedolwyr* allan bob mis. I ymaelodi fel e-aelod a dewis derbyn gwybodaeth am gyfleoedd nawdd, gwybodaeth am wirfoddoli neu wybodaeth ymddiriedoli … neu y tri chategori. A fyddech mor garedig â chwblhau'r ffurflen ar-lein syml yn www.wcva.org.uk/aelodaeth

---

Cwrs hunan-reoli yw'r **Rhaglen Cleifion Arbenigol** (yr EPP) i helpu pobl i hunanreoli clefydau cronig tymor hir. Cynhelir cyfres o gyrsiau chwech wythnos yn ystod Chwefror a Mawrth ym Môn: Moelfre, Caergybi a Llangefni.

Rhaglen Cleifion Arbenigol Cymru
dysgu rheoli eich cyflwr iechyd tymor-hir

Expert Patients Programme Wales
learning to manage your long term health condition

Am ragor o wybodaeth cysyllwtch â'r Cydlynydd, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, Ffordd Campbell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1HU
Ffôn:01286 674236 Ffacs: 01286 674197

Bydd **Cruse Bereavement Care** yn cynnal sesiynau galw i mewn yng Nghanolfan Lôn Abaty, Lôn Abaty, Bangor pob trydydd dydd Mercher yn y mis rhwng 10.15am - 12 .15pm yn cychwyn ym mis Ionawr. Dewch draw am sgwrs gyda Trish os ydych mewn profedigaeth neu â chonsyrn am rywun sy'n galaru. Gallent hefyd roi cymorth pan ragwelir profedigaeth.
Bydd llenyddiaeth ar brofedigaeth a lluniaeth ar gael am ddim.
Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Gweinyddwr ar: 08702 402 758 neu e-bost: crusenorthwales@btconnect.com

Cruse Bereavement Care

WCVA - Cymdeithas Sifil, gofod sifil - ymgysylltu â phobl a chymunedau

Mae WCVA yn cynrychioli, yn cefnogi ac yn ymgyrchu ar ran y trydydd sector yng Nghymru. Ei genhadaeth yw gwneud Cymru'n lle gwell drwy hyrwyddo gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol a'r trydydd sector ehangach.

Drwy wneud hynny, bydd yn cynorthwyo i adeiladu cymdeithas sifil yng Nghymru a fydd yn gynhwysol ac yn cynnig cyfle cyfartal trwy well gwasanaethau cyhoeddus, ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion, craffu gwrthrychol ar wasanaethau a gwella'r berthynas waith gyda'r trydydd sector.

I dderbyn copi o daflen a gynhyrchwyd yn ddiweddar cysylltwch â www.wcva.org.uk neu ffonio 0800 2888 329 e-bost: help@wcva.org.uk

HYFFORDDIANT

Recriwtio Gwirfoddolwyr

Yn yr oes ohoni mae llawer o gystadlu rhwng mudiadau i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr. Mae'n bwysig felly i fabwysiadu sustemau a pholisïau sy'n ein helpu i apwyntio'r person addas i swydd arbennig, ac i gadw, cefnogi, mesur a phwyso ein gweithlu.

Mae'r cwrs ynghlwm â dulliau o ddenu gwirfoddolwyr, sustemau penodi priodol, swydd ddisgrifiadau, cyfleoedd cyfartal, agweddau cyfreithiol o recriwtio a darparu cyfarwyddid a chefnogaeth gyfredol.

Dydd Mawrth:19eg Chwefror a 11eg Mawrth 2008.10.00am - 3.30pm
Swyddfa Cymunedau'n 1af, Hen Ysgol British, Stryd y Bont, Llangefni.

Cost: £18.00 yn cynnwys cinio am y deuddydd.
Dyddiad cau:10fed Chwefror 2008.

Sgiliau Cyfathrebu Effeithiol

Bydd y cwrs yn helpu i godi hyder wrth roi cyflwyniadau ac yn gyffredinol wrth gyfathrebu. Bydd yn ymwneud ag agweddau gwahanol o gyfathrebu llafar all effeithio ar sgiliau cyflwyno. Dysgwch y technegau syml o sut i ymlacio o flaen grŵp - deall a dysgu'r cysylltiad â'r berthynas rhwng cyflwynydd a'i gynulleidfa.

Dydd Mawrth: 15fed Ebrill 2008. 10.00am – 3.30pm
Ystafell Rhosyr, Adran Economaidd, Canolfan Fusnes Môn,
Parc Busnes Bryn Cefni, Llangefni.

Cost: £13.00 yn cynnwys cinio.
Dyddiad cau: 3ydd Ebrill 2008.

Os â diddordeb dychwelwch y daflen felen amgaeedig yn Dan Do 67.

EIN CYFEIRIAD YW:
Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7EN
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org